Geiriau Gwlyb

gan Meira Shakespear

Mae llawer o law yn syrthio yng Nghymru, felly mae gennym lawer o enwau am bethau naturiol gwlyb. Wrth gwrs, does dim rhewlifoedd yma, ac mae eira go iawn yn weddol brin hefyd.

Wyddoch chi fod gan iaith yr Escimo neu'r Inwit dros 15 o enwau am fathau gwahanol o eira?

Copïwch y lluosog cywir o'r rhestr ar y dde ar gyfer pob un o'r enwau unigol yn y golofn ar y chwith, yna dysgwch y ddau (unigol a lluosog) gan eu sillebu'n gywir bob tro.

Unigol	Saesneg	Lluosog	
aber	estuary	.....	llifogydd
afon	river	.....	cymerau
argae	dam	.....	rhewlifau
cors	marsh, bog	.....	ffrydiau
cronfa	reservoir	.....	aberoedd
cymer	confluence	.....	pyllau
dŵr	water	.....	llynnoedd
eira	snow	.....	glawogydd
ffos	ditch, leat	.....	nentydd
ffrwd	stream	.....	argaeau
ffynnon	spring, well	.....	moroedd
glaw	rain	.....	rhaeadrau
llif	flood, (flow)	.....	tarddleoedd
llyn	lake	.....	afonydd
môr	sea	.....	cronfeydd
nant	stream	.....	dyfroedd
pwll	pool	.....	ffosydd
rhaeadr	waterfall	.....	corsydd

rhewlif	glacier	.....	ffynhonnau
tarddle	source	.....	dim lluosog!

Dim ond ***unigol*** y geiriau Saesneg sydd wedi'i nodi, er bod y lluosog Cymraeg yno hefyd. Pam hynny?

Beth sydd yn wahanol am **luosog enwau** yn y Gymraeg a'r Saesneg?

Beth ydyn nhw?

Mae rhaid gwybod yn union beth yw'r nodweddion hyn. Defnyddiwch eiriadur os oes angen, yna gwnewch lun bach i ddangos eich bod yn deall yr ystyr. Os ydych chi'n gweithio ar y cyfrifiadur, efallai y medrwch gael hyd i fwy o luniau o fas data "ClipArt" a'u gosod yn eu lle. Mae pedwar wedi'u gwneud yn barod i chi.

Cofiwch: nid dyma'r unig enwau cywir yn y Gymraeg am y nodweddion hyn … er bod y rhan fwyaf yr un fath ym mhob tafodiaith. Glaw ydy glaw i ni i gyd!
Enwau arall am beth ydy ***pistyll*** a ***sgwd***, ***mign*** a ***siglen***?

Llenwi bylchau

Wedi dysgu'r holl enwau ar y rhestr, yn unigol a lluosog, llenwch y bylchau yn y brawddegau isod trwy gyfieithu'r gair Saesneg sydd mewn cromfachau.

Pa dreiglad sydd yn dilyn o?

1. Faint o (reservoirs) _____ sydd yng Nghwm Elan?

2. Sylwch ar yr holl (lakes) _____ sydd i'w gweld o gopa Cader Idris.

3. Mae dwy o (rivers) _____ mwyaf Cymru yn tarddu ar Bumlumon.

4. Yng Nghasnewydd mae (estuary) _____ Afon Wysg.

5. Man poblogaidd iawn gan ymwelwyr ydy (waterfall) _____ Cwm yr Aber.

6. Peidiwch â nofio yn y (pools) _____ yn yr afon – maen nhw'n ddwfn iawn.

7. Gallwch ymweld ag un o (bogs) _____ mwyaf diddorol y wlad ychydig i'r gogledd o Dregaron.

8. Mae'r (streams) _____ yn orlawn ar ôl glaw trwm.

9. Ble mae (waters) _____ Afon Aman ac Afon Llwchwr yn cyfarfod?

10. Rhaid fod y (glacier) _____ a gerfiodd gribau ysgythrog Eryri yn glamp o un mawr.